# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)08-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 11 Mawrth 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)07-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 4 Mawrth 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau arnynt, byddent yn cael eu cyfieithu ar gyfer eu cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i Ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)08-08(p1)**

3.1 Nododd Arweinydd y Tŷ bod y Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar y Rhaglen Drafnidiaeth wedi'i Diweddaru, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth, wedi'i ohirio. Dywedodd y byddai datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Wasanaethau Cymunedol yng Ngogledd Cymru yn cymryd ei le.

3.2 Cytunodd y pwyllgor na chaiff y cyfnod pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefniant busnes ar gyfer 11 a 12 Mawrth 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)08-08(p2)**

3.4 Nodwyd amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf gan y pwyllgor.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)08-08(p3)**

3.5 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Ceisiadau gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth a'r Gwasanaeth Pwyllgorau i gynnal busnes ychwanegol - BC(3)08-08(p4)**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Busnes wedi derbyn ceisiadau gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth a'r Gwasanaeth Pwyllgorau i

gynnal busnes ychwanegol ddydd Iau, 15 Mai 2008. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ceisiadau canlynol:

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gyfarfod ym Machynlleth, fel rhan o'i ymchwiliad i ostwng carbon yng Nghymru.

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i ymweld â Senedd yr Alban i gymharu arferion ac i gyfnewid profiadau.

**Cais gan y Pwyllgor Darlledu i gynnal cyfarfodydd Pwyllgor ar ddyddiau Llun - BC(3)08-08(p5)**

4.2 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Darlledu sydd newydd ei sefydlu wedi gofyn am gael cynnal cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor ar brynhawniau Llun o 14 Ebrill ac fel bo angen hyd 18 Gorffennaf. Nododd y Pwyllgor Busnes fod Aelodau'r Pwyllgor Darlledu wedi cynnal cyfarfod anffurfiol ar 5 Mawrth a bod yr holl Aelodau wedi cytuno mai prynhawniau Llun fyddai'r amser mwyaf cyfleus i gynnal cyfarfodydd ffurfiol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais hwn.

**Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i gyfarfod yn Abertawe - BC(3)08-08(p6)**

4.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol wedi gofyn am gael cynnal cyfarfod ffurfiol ychwanegol yn Abertawe, ddydd Iau 8 Mai 2008, fel rhan o'i ymchwiliad i gydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau Dywedodd Rheolwyr Busnes eu bod yn deall mai'r bwriad, o gynnal cyfarfod ar fin nos oedd galluogi cymaint o bobl ag sy'n bosibl i fynychu. Fodd bynnag, dywedodd Rheolwyr Busnes y byddai'n well pe bai cyfarfod min nos yn cael ei gynnal ar nos Fawrth neu nos Fercher.

**5. Trefniadau Cyflwyno**

# Papur ar Ddyddiau Cyflwyno ar gyfer sesiynau Cyfarfod Llawn yn dilyn Gwyliau'r Pasg - BC(3)08-08(p7)

5.1 Nododd y pwyllgor fod dyddiau cyflwyno penodol yn ystod gwyliau'r Pasg yn angenrheidiol i baratoi ar gyfer busnes yn y ddwy wythnos gyntaf yn dilyn y toriad. Cytunodd y Pwyllgor ar y dyddiau cyflwyno penodol fel 1 i 3 Ebrill 2008.

**6. Unrhyw Fater Arall**

**Amserlen Pwyllgorau**

6.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol y byddai pwyllgorau'n cyfarfod ar foreau a phrynhawniau Iau, gyda'r amserlen yn cylchdroi ar ôl gwyliau hanner tymor yr haf fel bod grŵp gwahanol o bwyllgorau yn cael eu trefnu i gyfarfod ar brynhawniau Iau.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**